



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Crynodeb o Aseiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru

## Teitl y cynnig:

*Y Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwysu) 2020 drafft*

## Adran:

*Swyddfa'r Prif Weinidog*

## Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog sy'n gyfrifol:

*Mark Drakeford AS  
Prif Weinidog Cymru*

## Dyddiad dechrau:

*5 Mai 2020*

## Cyfeiriad e-bost:

[CAUMailbox@llyw.cymru](mailto:CAUMailbox@llyw.cymru)

# Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

## Y Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwysu) 2020 drafft

Mae adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhestru'r personau, neu'r categorïau o bersonau, sydd wedi'u hanghymhwysu rhag bod yn Aelod o'r Senedd. Mae Atodlen 1A i'r Ddeddf honno yn rhestru categorïau o bersonau a deiliaid swyddi sydd wedi'u hanghymhwysu rhag bod yn Aelod o'r Senedd a hefyd rhag bod yn ymgeisydd i fod yn Aelod o'r Senedd. Dylid darllen y Gorchymyn drafft hwn gyda'r darpariaethau hynny.

Yn ogystal â'r swyddi a restrir yn adran 16 ac Atodlen 1A, mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu ar gyfer Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor ("Gorchymyn Anghymhwysu") i ddynodi swyddi eraill y byddai eu deiliaid yn cael eu hanghymhwysu rhag bod yn Aelod o'r Senedd (ond nid rhag bod yn ymgeisydd i fod yn Aelod o'r Senedd.)

Cyn pob etholiad cyffredinol i'r Senedd, gwneir Gorchymyn Anghymhwysu newydd sy'n dirymu'r Gorchymyn blaenorol ac sy'n nodi rhestr newydd o swyddi sy'n anghymhwysu.

Byddai'r Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwysu) 2020 drafft yn dirymu ac yn disodli Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwysu) 2015, ac yn cael effaith o'r etholiad lle cynhelir y bleidlais ar 5 Ebrill 2011 neu ar ôl hynny.

Caiff deiliaid swyddi a grybwyllir yng Ngorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwysu) 2020 sefyll fel ymgeisydd, ond ni chânt dyngu'r llw i fod yn Aelod o'r Senedd heb roi'r gorau i'w swydd yn gyntaf.

Y cefndir:

Er bod Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai'r rheolau ynghylch anghymhwysu rhag bod yn aelod o'r Senedd gael eu cyfyngu i gyn lleied o ddinasyddion â phosibl, rydym yn cydnabod bod gweithgarwch gwleidyddol yn amhriodol i deiliaid rhai swyddi. Yn benodol, mae angen diogelu rhai swyddi cyhoeddus rhag rhagfarn wleidyddol, a sicrhau bod y broses etholiadol yn parhau'n annibynnol.

Yn 2014, cynhaliodd Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Senedd ymchwiliad i'r rheolau sy'n ymwneud ag anghymhwysu person rhag bod yn aelod o'r Senedd<sup>1</sup>. Roedd yr ymchwiliad hwnnw yn cynnwys 21 o argymhellion ac yn cynnig trawsnewid y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer anghymhwysu person rhag bod yn aelod o'r Senedd.

Roedd Llywodraeth Cymru yn cytuno â phrif fyrddw adroddiad y Pwyllgor. Roedd y meini prawf ar gyfer pennu pa swyddi y dylid eu cynnwys yng Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwysu) 2015 yn seiliedig ar yr egwyddorion a nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor, ynghyd â rhai ystyriaethau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r un meini prawf wedi'u defnyddio ar gyfer y Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwysu) 2020 drafft a fydd yn dirymu ac yn disodli'r Gorchymyn presennol.

Meini prawf ar gyfer pennu pa swyddi ac aelodaeth o gyrff y dylid eu cynnwys yn y Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwysu) 2020 drafft:

## Egwyddorion cyffredinol a nodwyd yn argymhelliad 1 o adroddiad y Pwyllgor:

- Egwyddor 1: Mae hyrwyddo cyfranogiad democrataidd a'r hawl i sefyll fel Aelod o'r Senedd yn hollbwysig.

Egwyddor 2: Dylai anghymhwysu person rhag bod yn aelod o Senedd Cymru gael ei gyfyngu i gyn

<sup>1</sup> [Ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i Anghymhwysu Rhag Bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru Gorffennaf 2014](#)

lleied o ddinasyddion â phosibl.

Egwyddor 3: Mae gweithgarwch gwleidyddol yn amhriodol yng nghyswllt rhai dinasyddion er mwyn:

- i. amddiffyn annibyniaeth y broses etholiadol;
- ii. atal gwrthdaro rhag codi rhwng buddiannau pan gaiff unigolyn ei ethol; a
- iii. amddiffyn rhai swyddi cyhoeddus rhag rhagfarn wleidyddol.

Egwyddor 4: Dylai gorchymyn anghymhwysu fod yn berthnasol i'r dinasyddion canlynol:

- i. y rheini y mae eu rôl yn gofyn iddynt fod yn gwbl ddiuedd, gan gynnwys y rheini y mae eu cyfrifoldebau'n cynnwys y broses etholiadol ei hun;
- ii. y rheini sy'n dal unrhyw swydd gyhoeddus lle derbynnir budd ariannol sylweddol oddi wrth Lywodraeth Cymru;
- iii. y rheini sydd mewn swydd gyhoeddus ac yn darparu cyngor ffurfiol i Lywodraeth Cymru yn y rôl honno;
- iv. y rheini sy'n dal unrhyw swydd gyhoeddus y mae'r Senedd yn craffu arni.

Egwyddor 5: Os oes rhaid anghymhwysu, rhaid iddynt fod:

- i. yn gyson â'r egwyddorion hyn;
- ii. yn glir ac yn ddiamwys;
- iii. yn gymesur.

- Dylai'r swyddi a ddisgrifir yn argymhelliad 12 o Adroddiad y Pwyllgor fod yn swyddi anghymhwysu a dylid eu cynnwys yn y Gorchymyn Anghymhwysu, oni bai eu bod eisoes yn swyddi anghymhwysu ac wedi'u cynnwys o dan adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
- Dylai aelodau tribiwnlysoedd barnwrol gael eu hangymhwysu.
- Fel rheol, dylai unigolion a benodir gan Weinidogion Cymru gael eu hangymhwysu, ond gall fod achosion lle na ddylid gwneud hynny (yn yr achosion hynny, bydd yn bwysig ystyried y pum egwyddor y cyfeiriwyd atynt uchod).
- Ni ddylid anghymhwysu staff cyhoeddus fel y'u disgrifir yn argymhelliad 13 o Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (e.e. staff Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, yr Heddlu, Tân ac Achub, staff Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru) – mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gellir tybio'n ddiogel y byddai staff o'r fath yn rhoi'r gorau i'w cyflogaeth pe baent yn cael eu hethol, gan y byddai parhau â chyflogaeth o'r fath yr un pryd ag ymgymryd â chyfrifoldebau Aelod o'r Senedd yn gosod gofynion amhosibl ar yr unigolyn.

## Casgliad

### 1. Sut mae'r rheini y mae'r cynnig fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi bod yn rhan o'r gwaith o'i ddatblygu?

Roedd ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn gwneud ymrwymiad i ymgynghori ar Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwysu) 2015 a thrwy ymgynghori ar y Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwysu) 2020 drafft rydym wedi parhau i wireddu'r ymrwymiad hwnnw.

Mae'r Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwysu) 2020 drafft yn dechnegol ei natur ac mae'n benodol o ran ei gymhwysiad i'r bobl sy'n gwneud y swyddi dynodedig. Fel rhan o'r broses ymgynghori cysylltodd swyddogion yn uniongyrchol, drwy e-bost, â bawb a oedd â swydd anghymhwysu ar y diwrnod y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad i godi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad a chaniatáu cymaint o amser â phosibl i ymateb.

Rhoddwyd trefniadau ar waith i sicrhau bod ymatebion a gyflwynwyd drwy'r post yn cael eu derbyn yn ystod y pandemig COVID-19.

Roedd y Gorchymyn drafft a'r dogfennau ymgynghori ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn i'r ymgynghoriad gael ei gynnal yn ddwyieithog.

Er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd ehangach i'r ymgynghoriad, cyhoeddwyd Datganiad Ysgrifenedig i gyd-fynd â chyhoeddi'r ymgynghoriad.

Cafodd pob sefydliad a ychwanegwyd at y Gorchymyn drafft ar ôl yr ymgynghoriad e-bost yn uniongyrchol i'w hysbysu y byddai'r swyddi sy'n berthnasol i'w sefydliad yn cael eu cynnwys yn y Gorchymyn drafft.

## 2. Beth yw'r effeithiau mwyaf amlwg, cadarnhaol a negyddol?

Ni nodwyd unrhyw effeithiau ar bobl, economi ac amgylchedd Cymru nac ar ei diwylliant a'r iaith Gymraeg o ganlyniad i Orchymyn Senedd Cymru (Anghymhwys) 2020 drafft. Nid oes unrhyw gostau wedi'u nodi o ran y ddeddfwriaeth hon.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. Oherwydd natur benodol y Gorchymyn, nid ystyrir bod angen cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o gostau a manteision tebygol cydymffurfio â Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwys) 2020.

## 3. Yng goleuni'r effeithiau a nodwyd, sut bydd y cynnig:

- yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu
- yn osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

N/A

## 4. Sut caiff effaith y cynnig ei fonitro a'i werthuso wrth i'r broses symud yn ei blaen a phan gaiff ei chwblhau?

Cyn pob etholiad cyffredinol i'r Senedd, gwneir Gorchymyn Anghymhwys newydd sy'n dirymu'r Gorchymyn blaenorol ac sy'n nodi rhestr newydd o swyddi sy'n anghymhwys. Cyn etholiad cyffredinol nesaf y Senedd, bydd pob swydd sydd wedi'i hangymhwys gan Orchymyn Senedd Cymru (Anghymhwys) 2020 yn cael ei hadolygu a bydd Gorchymyn anghymhwys newydd yn cael ei lunio i adlewyrchu unrhyw newidiadau sydd eu hangen.